# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 5

AMRYWIOL

### 38 Adroddiad ar estyn yr hawl i bleidleisio a newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad y darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n—

(a) estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau sy'n 16 neu'n 17 oed,

(b) estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau sy'n ddinasyddion tramor cymhwysol,

(c) caniatáu i ddinasyddion tramor cymhwysol fod yn Aelodau o'r Senedd, a

(d) anghymhwyso aelodau o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.

(2) Rhaid i'r adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) gael ei osod gerbron y Senedd.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "cyfnod adrodd" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â diwrnod etholiad cyntaf y Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.